

WILLIAMS, THOMAS, o Lanidan (1737 - 1802), twrnai ac un o brif lywiawdwy'r y diwydiant copr yn niwedd y 18fed ganrif

Enw: Thomas Williams
Dyddiad geni: 1737
Dyddiad marw: 1802
Plentyn: Owen Williams
Rhiant: Owen Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: twrnai ac un o brif lywiawdwy'r y diwydiant copr
Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Cyfraith
Awdur: Thomas Richards

Fel mab (ganwyd 13 Mai 1737) i Owen Williams o'r Cefn Coch yn Llansadwrn, a pherchennog hefyd ar Dregarnedd a Threffos, a'i fam yn ferch Hendre Hywel ger Llangefni, gwaith cymharol hawdd fu i Thomas Williams fyned i fyny llawes gw'r mawr Môn; ef oedd prif drefnydd papurau stad Bodior; ef a wariodd gryn 10 mlynedd yn ceisio cael rheswm allan o'r ddeuddyn ystyfnig, William Hughes, sgwier y Plas Coch, a'i fab, y [William Bulkeley Hughes cyntaf](#); ef hefyd (1791) a lwybreiddiodd brynu Plas yn Llanfair gan yr [iarll Uxbridge](#) oddi wrth y bonheddwr John Lewis o Lanfihangel (Tre'r Beirdd). Rai blynyddoedd cyn hynny, o gwmpas 1785, daeth Williams i gyswllt agos a'r iarll ac yn brif reolwr ar weithiau copr Mynydd Parys, gweithiau a berchenogid gan [Uxbridge](#) a theulu Llysdulas; ymddiriedwyd eu datblygu gan y ddwy ochr i ddwylo yr un g'r. Bu'r llwyddiant yn rhyfeddol; nid yn unig allforid miloedd o dunelli o gopr, ond tyfodd amryfal ddiwydiannau yn sgil y copr - adeiladau mawrion yn Ravenhead a Stanley, ffwrneisi toddi yn Amlwch ei hun, clwstwr o felinau yn ardal Holywell - a, llynges o fân glud-longau yn dod allan o hafn Porth Amlwch i wynebu'r moroedd. Llwyddodd Williams i gael clust Bwrdd y Llynges (yn ystod y rhyfeloedd â Napoleon), a gwnaed bargeinion proffidiol â Chwmni India'r Dwyrain; parodd ddychryn nid bychan i farsiantwyr mawr Cernyw, cartref cynhenid y diwydiant copr; galwyd ef fwy nag unwaith o flaen pwyllgorau arbennig T'r Cyffredin i roddi tystiolaeth fel arbenigwr; erbyn 1800 cyfaddefai fod hanner adnoddau'r fasnach yn ei ddwylo, gyda chefnid ariannol yn ymyl miliwn o bunnau. Beth bynnag oedd barn cyfalafwyr Cernyw a masnachwyr pres Birmingham amdano, 'Twm Chwarae Teg' y gelwid ef ar lafar gwlad ym Môn. Yn naturiol ddigon deuai'r gyfathrach glos ag [Uxbridge](#) â Williams i ganol bywyd politicaidd y cyfnod, a gwnaeth gymaint a neb i gael y [Pagets](#), meibion [Uxbridge](#), i mewn yn aelodau seneddol dros sir Fôn a bwrdeisdrefi Arfon o'r flwyddyn 1790 ymlaen; prif fyrdwn ei lythyrau yw pwysleisio mor anhepgor oedd cyfeillgarwch a chyd-ddeall rhwng yr iarll a'r [arglwydd Bulkeley](#) o Fiwmares. Nid oedd dim da rhwng yr arglwydd hwnnw a'r esgob Warren o Fangor, yn enwedig gan i'r esgob wrthwynebu ymgais [Syr Robert Williams](#), hanner brawd yr arglwydd, i ddod yn aelod seneddol dros sir Gaernarfon, yn 1796; sarrug oedd osgo [Uxbridge](#) yntau at yr esgob oherwydd i Warren ymgynhyddu rhag codi eglwys newydd, yn Amlwch; dyma'r prif ystyriaethau dros gredu taw Williams oedd awdur y pamffled ffyrnig yn condemnio'r esgob a ymddangosodd o dan yr enw *Shôn Gwialan* yn 1796. Prif ysgogydd efallai, nid awdur; y mae ymron yn sicr mai saerniwr y geiriau siarp a'r brawddegau coeth oedd [David Williams](#) (1738 - 1816); sylfaenydd y 'Royal Literary Fund', ar hynny o bryd yn glerc yng ngwasanaeth Thomas Williams yn Llundain. Mewn llythyr at [Uxbridge](#) yn 1788, rhydd Williams rybudd cynnil o'i fwrriad ef ei hun i ddod yn aelod seneddol; daeth yn aelod dros Great Marlow yn 1790, a daliodd y sedd hyd ei farwolaeth 30 Tachwedd 1802. Trodd ei ddisgynyddion eu cefnau ar y diwydiant copr; fel meddianwyr stad Craig-y-don a sefydlwyr banciau y cofir amdanynt. Bu amryw yn aelodau seneddol; priododd tair o ferched Thomas Peers Williams, mab i OWEN WILLIAMS (1764 - 1832), aelod seneddol, ac yr i Thomas Williams, ag aelodau o D'r Arglwyddi, a dwy arall â meibion i arglwyddi; brawd i'r merched hyn oedd Hwfa Williams, g'r pur amlwg (ef a'i wraig) yn llys Edward VII.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 68, 102

Henllys Manuscripts (Coleg y Gogledd), 192-205, 757-9, 851-4

Llawysgrifau Plas Coch yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 738-72

Mona Mine Records (Coleg y Gogledd), 1267-8, 1281, 3052-5, 3057-8

Plas Newydd Correspondence (Coleg y Gogledd), i, 1976-90; ii, 11-4, 201, 211, 2459

Llawysgrifau Bangor yn Llyfrgell Coleg y Gogledd, Bangor 3010-17

A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd 1933), 155-9

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1940, 77-86

Y Traethodydd, 1947, 35

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Thomas Williams, Llanidan](#)

Delweddau

Amgueddfa Cymru: [Thomas Williams \(1737-1802\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [100480467](#)

Wikidata: [Q7795206](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

